NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnblaniad chondrocyte o'r un unigolyn gan ddefnyddio chondrosphere ar gyfer trin diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin

7 Mawrth 2018

Mae mewnblaniad chondrocyte o'r un unigolyn (ACI) gan ddefnyddio chondrosphere ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin mewn pobl os yw'r canlynol yn gymwys:

- nid ydynt wedi cael llawdriniaeth pen-glin flaenorol i drwsio diffygion cartilag articwlar
- dim ond ychydig o niwed pen-glin o osteoarthritis sydd
- mae'r diffyg dros 2 $cm^2$.

Mae cartilag articwlar yn cwmpasu ymylon yr esgyrn mewn cymal (megis y pen-glin) ac yn eu rhwystro rhag rhwbio yn erbyn ei gilydd pan fyddwch yn symud. Gall niwed cartilag ddigwydd drwy anaf uniongyrchol, yn aml drwy chwaraeon, neu drwy draul. Nod ACI gan ddefnyddio chondrosphere yw gwneud i gymal y pen-glin weithio'n normal drwy roi cartilag iach sydd wedi tyfu o gelloedd y claf ei hun yn lle'r cartilag sydd wedi'i niweidio.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- ARMA, 0203 856 1978
- Arthritis Action, 0800 652 3188
- Gofal Arthritis, 0808 800 4050

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2827-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights